AMGUEDDFA CYMRU

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/2022

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/2022

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi trosolwg o waith allweddol mewn perthynas â chyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2021/2022: Atodiad-2-SEP-202122.pdf (amgueddfa.cymru). Mae hefyd yn rhoi sylw i'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth, fel cyflogwr ac yn ein gwaith gyda'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu yng Nghymru, drwy wneud diwylliant yn hygyrch ac yn berthnasol i bawb.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2021, sydd â'r nod o sicrhau bod Amgueddfa Cymru ac eraill sy'n cyflawni 'swyddogaethau cyhoeddus' yn ystyried sut y gallwn ni gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn ein gweithgareddau beunyddiol.

Cefndir

Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd gweithgor trawsadrannol i lunio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2021-2022: Atodiad-2-SEP-202122.pdf (amgueddfa.cymru). Roedd ein cynllun yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu'r naw grŵp gwarchodedig ar hyn o bryd, a'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol rhag cael mynediad at y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a'n gweithlu. Maent hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hawliau'r Gymraeg sydd wedi'u diogelu gan Safonau'r Gymraeg, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn ogystal â'r ddyletswydd hon, mae sawl strategaeth drawsnewidiol ac ysgogwyr polisi eraill wedi llywio datblygiad ein hamcanion strategol, sydd oll yn canolbwyntio ar greu Cymru fwy cyfartal, mwy teg ac iachach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Adroddiad *A yw Cymru'n decach?* (2018) Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru

Roedd lansio'r cynllun ym mis Mawrth 2021 yn gyfle hefyd i ni nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn sgil pandemig Covid-19. Yn ystod y pandemig, taflwyd goleuni ar yr anghydraddoldeb a'r caledi anhygoel sy'n wynebu gwahanol grwpiau ac mae gofyn am ffocws a chamau pendant i fynd i'r afael â nhw.

Ym mis Mehefin 2020, comisiynodd Amgueddfa Cymru a Chyngor y Celfyddydau adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad, sef gwaith ymchwil i ddeall sut y gallwn ehangu ein hymgysylltiad â chymunedau yr ydym yn methu'n gyson â'u cynnwys yn ein gwaith: Ymchwil Ehangu Ymgysylltiad | Amgueddfa Cymru. Ar ôl i'r ymchwil ddod i ben, cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru Gynllun Gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau. Mae'r camau hyn bellach wedi'u gwreiddio'n llawn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaraf ar gyfer 2022-2025: Cynllun-Cydraddoldeb-Strategol-2022-2025.pdf (amgueddfa.cymru) ac mae'n brawf pellach o'n hymrwymiad i newid ein ffordd o weithredu.

Amcan 1

Mae Amgueddfa Cymru yn datblygu gweithlu a thîm o wirfoddolwyr sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn well.

Y Gweithlu

Rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu cynrychioli, ac yn cydnabod bod angen i ni newid ein ffordd o wneud pethau er mwyn gwneud hyn. Yn ystod y cyfnod hwn, wrth recriwtio i bedair rôl ymgysylltu â'r gymuned (h.y., Swyddog Digwyddiadau Cymunedol, Rheolwr Project Dad-drefedigaethu Casgliadau, Swyddog Arddangosfeydd Cymunedol a Swyddog Dysgu) gweddnewidiwyd ein dull i sicrhau ei fod mor gynhwysol â phosibl trwy wneud y canlynol:

- Cynnig cyfweliad gwarantedig i ymgeiswyr mewnol ac allanol o gymunedau sy'n profi anghydraddoldebau hiliol a/neu bobl ag anableddau, os ydyn nhw'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer unrhyw un o'r rolau.

- Mewn cydweithrediad â'n Partneriaid Cymunedol, adolygu ein proses ymgeisio i'w gwneud yn fwy hygyrch a chynhwysol (h.y., ffurflen gais ddiwygiedig sy'n cynnwys canllawiau ar sut i wneud cais a chynnig cymorth un i un gydag unrhyw agwedd ar y broses ymgeisio gan aelod o'r tîm AD).

- Cynnig teithiau anffurfiol o gwmpas ein hamgueddfeydd, sesiynau galw heibio a galwadau ffôn er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddysgu mwy am y rolau.

- Pwysleisio yn ein dogfennau recriwtio ein bod yn croesawu trafodaethau am addasiadau rhesymol ar bob cam o'r broses recriwtio.

- Cynnig dewis o gyfweliadau wyneb yn wyneb neu rithwir i'r ymgeiswyr a ddetholir.

Yn ystod y cyfnod hwn, cofnodwyd cynnydd sylweddol mewn gweithwyr gydag anabledd, gan gynyddu o 3.99% yn Chwarter 3 2021/22 i 7.73% yn Chwarter 4 2021/22.

Gwirfoddoli

Yn 2021-2022 cefnogwyd 579 o wirfoddolwyr a roddodd 23,139 o oriau i Amgueddfa Cymru.

Ym mis Ionawr 2022 dyfarnwyd statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli i Amgueddfa Cymru am y trydydd tro, heb unrhyw argymhellion i wella. Roedd y broses asesu yn gyfle i fyfyrio ar ein gwaith a nodi meysydd newydd i'w datblygu. Cafwyd canmoliaeth arbennig i'n gwaith o gadw mewn cysylltiad rheolaidd â gwirfoddolwyr Amgueddfa Cymru gydol y pandemig, gan bwysleisio'r ymdeimlad o berthyn y mae ein gwirfoddolwyr yn ei deimlo, a'n taith tuag at raglen gynhwysol ac amrywiol.

Recriwtiwyd gwirfoddolwyr a lleoliadau gwaith newydd a gweithiwyd tuag at ailgyflwyno Gwirfoddoli Grŵp yn 2022-23.

Cawsom 55 o ffurflenni cofrestru gan ddarpar wirfoddolwyr. O'r 55:

- roedd 62% yn nodi eu bod yn fenywod.
- dywedodd 25% eu bod o dan 25 oed (cyfran uwch nag unrhyw grŵp oedran arall).
- roedd 16% o gefndir ethnig nad yw'n wyn (sy'n uwch nag unrhyw flwyddyn arall).
- roedd 7% yn ddeurywiol, 2% yn hoyw/lesbiaidd, a 2% yn anrhywiol.
- roedd 20% yn ystyried bod ganddynt anabledd.
- nododd 44% o'r gwirfoddolwyr a gofrestrwyd yn 2021/22 fod ganddynt ryw lefel o Gymraeg, gydag 14% yn rhugl. Mae nifer yr ymgeiswyr rhugl wedi dyblu ers 2019/20 a hynny yn rhannol oherwydd gwaith recriwtio rhagweithiol ar gyfer ein rolau e-wirfoddoli/Gwirfoddoli Gartref. Mae'r rhaglen wirfoddoli hon yn chwalu rhwystrau at gyfranogiad ac yn croesawu cyfraniadau gan siaradwyr Cymraeg ble bynnag y bônt.

<u>Lleoliadau</u>

Mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu rhaglen a fframwaith swyddogol ar gyfer Lleoliadau Gwaith.

Mae'r Rhaglen Lleoliadau Datblygu Sgiliau yn seiliedig ar anghenion Partneriaid Cymunedol ac fe'i datblygwyd i ddarparu lleoliadau a chyfleoedd datblygu sgiliau i bobl sydd ag Awtistiaeth neu Syndrom Down. Dros y blynyddoedd mae'r rhaglen hon wedi'i ehangu i gynnwys unrhyw un sy'n wynebu rhwystr i gael gwaith.

Ein nod yw cynnal rhaglen leoliadau gydnabyddedig sy'n rhoi profiad gwerthfawr a sgiliau trosglwyddadwy i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Drwy ddarparu rhaglen leoliadau, rydym yn sicrhau ein bod:

- yn diwallu anghenion ein cymunedau drwy ddarparu cyfleoedd i fagu profiadau a meithrin sgiliau trosglwyddadwy.

- yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ein hunain.

- yn darparu gwasanaeth i bobl ag anghenion ychwanegol a rhwystrau i gyflogaeth.

Camau at waith

Rhwydwaith o bobl ifanc 16-25 oed yw Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, rhan o'n menter ymgysylltu ieuenctid, Dwylo ar Dreftadaeth a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyflogaeth â thâl i bobl ifanc a llwybr at weithio gydag Amgueddfa Cymru. Mae sawl Cynhyrchydd wedi'u penodi i swydd barhaol gydag Amgueddfa Cymru.

Roeddem hefyd yn rhan o gynllun Kickstart. Wedi'i hariannu gan Lywodraeth y DU, roedd y fenter hon yn creu lleoliadau ystyrlon, chwe mis o hyd, i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac a gyfeiriwyd atom gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Amcan 2

Cefnogi ein holl staff a gwirfoddolwyr i gyflawni eu potensial a'u huchelgais proffesiynol a chael gwared â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni hyn.

- Trefnir hyfforddiant yn flynyddol i'r staff a'r gwirfoddolwyr. Yn 2021-22 fe wnaethom ni ganolbwyntio ar hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod ac Iaith Niwtral o ran Rhywedd.

- Cafodd yr hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod ei ariannu gan grant gan y Gronfa Gelf er mwyn helpu staff a gwirfoddolwyr i allu cynorthwyo staff, ymwelwyr a gwirfoddolwyr sydd naill ai'n rhannol fyddar neu'n gwbl fyddar. Bu'r hyfforddiant yn llwyddiant ysgubol ac mae'r Adran Adnoddau Dynol bellach yn gweithio tuag at ddarparu'r hyfforddiant hwn i'r holl staff fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.

- Cafodd yr hyfforddiant Iaith Niwtral o ran Rhywedd ei gynllunio a'i ddarparu gan oedolyn ifanc yn rhan o'r project Dwylo ar Dreftadaeth, er mwyn ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc. Roedd y math hwn o hyfforddiant yn bwysig er mwyn ein galluogi i helpu pob gwirfoddolwr yn effeithiol, waeth beth yw ei rywioldeb neu rywedd.

- Ym mis Chwefror 2022, dechreuwyd proses dendro ar gyfer Hyfforddiant Gwrth Hiliaeth i Bob Aelod Staff, i'w ddatblygu ymhellach yn 2022/23.

Y Gymraeg

- Cynhelir amryw glybiau anffurfiol i ddysgwyr a siaradwyr rhugl ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg. Cynhaliwyd Clwb Pontio ar gyfer Amgueddfa Gymru gyfan ar Zoom yn ystod y cyfnod hwn, gan alluogi

i’n staff o wahanol safleoedd ymarfer a defnyddio’u Cymraeg gydag ystod ehangach o gydweithwyr – boed y rheini’n ddysgwyr neu’n siaradwyr rhugl. Yn sgil llacio cyfyngiadau, adolygwyd y ddarpariaeth gan ddatblygu cyfuniad o weithgarwch digidol ac wyneb yn wyneb. Mae ein Cynllun Cyfaill Cymraeg sy’n paru dysgwr â siaradwr rhugl er mwyn creu cyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg hefyd yn parhau’n boblogaidd.

- Cynigir nifer o wahanol fathau o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol am ddim ac o fewn oriau gwaith er mwyn cynorthwyo ein staff i ddysgu a defnyddio'u Cymraeg. Yn 2021-22, cynhaliwyd yr hyfforddiant yn ddigidol gan mwyaf, ac mae'r manylion i'w gweld yn ein Hadroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg.

- Nodwn lwyddiant arbennig y dosbarth Sylfaen llynedd sydd wedi pontio i astudio ar lefel Canolradd yn 2021-22.

- Rydym yn parhau i gefnogi staff i ddysgu a defnyddio’r iaith trwy ein haelodaeth o gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

- Cynyddwyd yr adnoddau digidol sydd ar gael i staff. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar broject gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu Cwrs Croeso 10 awr ar gyfer staff blaen tŷ amgueddfeydd ar draws Cymru gyda'r gobaith o'i lansio yn y flwyddyn nesaf.

- Mae gennym ddogfen datblygu sgiliau iaith at ddefnydd staff a rheolwyr llinell. Mae’r ddogfen yn mynd law yn llaw â chynllun rheoli ac adolygu perfformiad staff.

- Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â chyrff allanol gan gynnwys datblygu hyfforddiant cynaliadwyedd Llythrennedd Carbon Cymraeg sydd bellach ar gael i unrhyw gorff cyhoeddus ar draws Cymru a’r DU.

Amcan 3

Cynyddu’r amrywiaeth o bobl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru, yn cyfranogi ac yn defnyddio ein gwasanaethau.

- Datblygwyd cynnwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL) mewn partneriaeth ag aelodau'r gymuned F/fyddar ac mae wedi'i wreiddio ar draws digwyddiadau megis y gyfres Amgueddfa Dros Nos: Gartref a

rhaglenni Sgyrsiau, ar-lein ac yn fyw mewn amgueddfeydd. Hefyd, mae cynlluniau ar y gweill i dreialu cynnwys BSL yn y rhaglenni Hwyrnos a Gwyliau.

- Rydym yn defnyddio platfform YouTube ar gyfer ein deunydd fideo a ffilmiau. Gosodir isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar bob fideo a gyhoeddir.

- Mae holl dudalennau'r wefan yn cynnwys dolen uniongyrchol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddilyn yr egwyddor o adeiladu ein gwefannau i greu tudalennau sy'n ddrych o'i gilydd. Rydym yn parhau i hybu'r cynnig gweithredol yn ein cyfryngau digidol, gan gynnwys cynnig ategyn VOCAB ar dudalennau Cymraeg ein gwefan er mwyn annog defnydd ohonynt a hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr.

- O ran meddalwedd ddwyieithog, mae partneriaeth yn parhau i fod yn allweddol wrth i ni weithredu dros y Gymraeg. Yn 2021-22, gweithiwyd gyda chwmni rhyngwladol Kotobee i gyfieithu a lansio rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd e-lyfrau sef un o'n prif allbynnau addysg. Dyma'r rhyngwyneb cyntaf o'i fath yn y Gymraeg.

- Rydym yn cyfrannu at drafodaethau ehangach ynghylch y Gymraeg ar lefel leol a chenedlaethol. Yn 2021-22, cyfrannwyd at weithdy iaith a dad-drefedigaethu y Bywgraffiadur dan ofal y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Race Council Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r maes hwn yn arbennig o berthnasol i ni wrth i ni barhau â'n gwaith o ddad-drefedigaethu'r casgliadau cenedlaethol. Elfen gref o'r gwaith hwn yw ailasesu'r iaith a ddefnyddir wrth drafod casgliadau, gan geisio cyfrannu at greu a defnyddio geirfa Gymraeg gyfoes a chydradd.

<u>Amcan 4</u>

Byddwn yn anelu i ddefnyddio dull sy'n gyfrifol yn gymdeithasol wrth fynd ati i brynu nwyddau, gwasanaethau ac adnoddau a sicrhau fod yr holl gaffaeliadau yn cael eu gwneud yn unol ag ymrwymiadau a wnaed yn y Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Byddwn yn ceisio datblygu a hyrwyddo cadwyni cyflenwi effeithiol, lleol a chynaliadwy.

- Datblygwyd ein Llawlyfr Caffael ac mae'n cynnwys canllawiau ar fynd i'r afael â chydraddoldeb o fewn arferion caffael.

- Mae’r holl gaffaeliadau sylweddol yn cael eu hysbysebu ac maent ar gael i bawb, ac maent yn cynnwys cwestiynau a datganiadau ynghylch cydraddoldeb a'r agenda gymdeithasol ehangach sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) fel mater o drefn.

- Penodwyd Ymgynghorwyr Hygyrchedd i gynnal adolygiad cynhwysol ym mhob amgueddfa fel ein bod yn gwneud y mwyaf o atebion mynediad a bod gennym fap trywydd manwl ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig, a'r tymor hir.

- Defnyddiwyd meddalwedd rheoli gwariant, Atamis, i gasglu gwybodaeth am wariant caffael yn ôl lleoliad, sector, a maint.

- Datblygwyd gofynion parthed y Gymraeg sy’n mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth ac yn ymateb i anghenion defnyddwyr mewn nifer o dendrau allweddol, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a thendrau hyfforddiant mewnol.

- Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi bod yn datblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid dwyieithog newydd i'w lansio yn 2022. Bydd yn ein galluogi i gofnodi dewis iaith, casglu data defnydd a datblygu darlun cliriach o anghenion ac arferion ein cynulleidfaoedd Cymraeg er mwyn gwella’u profiadau. Gweithiwyd gyda chwmni rhyngwladol nid-er-elw Tessitura ar y feddalwedd, a dyma'r rhyngwyneb blaen swyddfa dwyieithog cyntaf iddyn nhw ei greu.

- Llwyddodd ein Tîm Datblygu i gaffael systemau codi arian electronig tapiwch-i-gyfrannu fydd yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys y sgrin dalu. Mae'r peiriannau eisoes yn eu lle yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac edrychwn ymlaen at eu gweld ym mhob amgueddfa maes o law.

<u>Amcan 5</u>

Rydym yn cydnabod ein rôl unigryw wrth ddarparu cyfleoedd i ddangos cyfoeth diwylliant amrywiol y genedl drwy'r celfyddydau.

Ymhlith y rhaglenni cyhoeddus a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd yn 2021/22 mae:

- Digwyddiadau i ddathlu amrywiaeth diwylliannol ac ethnig gan gynnwys digwyddiad Diwali Ar-lein, gweithdai brodwaith Project y Wisg Goch yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a rhaglen gerddoriaeth ar-lein yr Ŵyl Fwyd sy'n rhoi llwyfan i artistiaid duon ifanc o bob cwr o Gymru. Cefnogwyd digwyddiad Pride a chafwyd sgyrsiau ar-lein i ddathlu Mis Hanes LHDTC+.

- **Arddangosfeydd fel:**

Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes a agorodd yn Sain Ffagan ar 2 Hydref 2021. Roedd yr arddangosfa bwerus hon yn cynnwys straeon ac atgofion deugain o hynafiaid cenhedlaeth Windrush Cymru, yn eu geiriau eu hunain. Dan arweiniad Race Council Cymru, datblygwyd yr arddangosfa hon mewn partneriaeth â Chanolfan y Mileniwm, Casgliad y Werin, Hynafiaid Windrush Cymru a Hanes Pobl Dduon Cymru 365, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor y Celfyddydau, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Gŵyr Abertawe. Teithiodd yr arddangosfa i Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe, Amgueddfa Wlân Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru a Big Pit, cyn teithio o amgylch lleoliadau eraill yng Nghymru.
Yfory trwy lygaid ddoe a agorodd yn Sain Ffagan ym Mehefin 2021. Cafodd yr arddangosfa amlddisgyblaethol hon ei chydguradu gyda Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a'r artist Henry Alles, ac roedd yn archwilio'r gorffennol fel modd o ddarganfod y dyfodol.

- Cafodd arddangosfa am fudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) Cymru ei harddangos yn Sain Ffagan. Mae'r arddangosfa yn cynnwys profiadau ymgyrchwyr o Ynys Môn, Bangor, Caernarfon, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam.

- Mae **Ffoaduriaid Cymru: Bywyd wedi Trais** yn broject partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd ac Amgueddfa Cymru, wedi'i ariannu gan AHRC. Mae'r project yn seiliedig ar gasglu cyfweliadau hanes llafar gyda Thamiliaid Sri Lanka a ffoaduriaid o Syria sy'n byw yma yng Nghymru. Ar gyfer Wythnos Ffoaduriaid 2021, cynhaliwyd trafodaeth banel ar-lein fyw gydag ymchwilwyr y project o Brifysgol Caerdydd. Bu'r panelwyr yn myfyrio ar eu profiadau o gasglu cyfweliadau hanes bywyd yn ystod y pandemig, ac yn archwilio rhai o'r cwestiynau ymchwil y mae'r project yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

- **Casglu ac amlygu hanesion pobl Dduon 2021/22**: gwnaethom barhau i weithio gydag unigolion a phartneriaid cymunedol i ddatblygu ac ehangu'r gynrychiolaeth o hanes pobl Dduon yn y casgliad. Ymhlith yr allbynnau roedd:

    - Cyflawni cam 1 y 'Cynllun Casglu Hanes, Celf a Gwyddorau Naturiol Pobl Dduon' a datblygu cam 2 ar gyfer 2022/23.

    - Cynnal digwyddiad byw ar-lein ym mis Chwefror 2022 yn archwilio treftadaeth, diwylliant a hunaniaeth yn Somaliland a'r diaspora yng Nghymru. Roedd y cyfranwyr yn cynnwys Amgueddfa

Genedlaethol Somaliland, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat, Cymdeithas Datblygu Horn, Cydweithfa Degmo a Dhaqhan.

- **Datblygu Siarter ar gyfer Dad-drefedigaethu'r Casgliad.** Aethpwyd ati i ddatblygu siarter mewn ymgynghoriad â phartneriaid cymunedol perthnasol i gefnogi ein gwaith dad-drefedigaethu ar draws holl feysydd casglu Amgueddfa Cymru. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n cyflawni nodau'r Siarter gyda grŵp o bartneriaid cymunedol ar draws 6 maes gwaith allweddol: cyd-guradu cynnwys, adnabod casgliadau hiliol, gwneud penderfyniadau am gaffaeliadau, mynediad at gasgliadau a digideiddio casgliadau. Mae'r grŵp wedi bod yn treialu dulliau gwahanol o fynd i'r afael â hyn a gwerthuso'r gwahanol ffyrdd o ddad-drefedigaethu'r casgliadau. Bydd canfyddiadau'r gweithdai hyn yn llywio ein gwaith dad-drefedigaethu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

- **Casglu ac amlygu hanesion LHDTC+ 2021/22:** gyda'r nod o gynyddu'r casgliad hwn i fod yn gwbl gynrychioliadol o'r holl gymunedau LHDTC+ ledled Cymru. Ymhlith yr allbynnau roedd:

- Casglu diwylliant materol a digidol amryw o grwpiau chwaraeon a chorau LHDTC+, gan gynnwys Clwb Pêl-droed Dreigiau Caerdydd a Chlwb Rygbi Llychlynwyr Abertawe, Côr Songbirds a Chôr Meibion Hoyw Cymru.

- Mis Hanes LHDT+ ym mis Chwefror 2022:
    - Cafodd y dyluniad gwreiddiol ar gyfer bathodyn 'Lesbians & Gay Men Support the Miners' ei arddangos.
    - Ffilmiwyd Llyfr Caneuon Hanes LHDTC+ Cymru yn Sefydliad Gweithwyr Oakdale, Sain Ffagan. Wedi'i ariannu gan Celfyddydau Cymru, cyfansoddodd Gareth Churchill ddarn perfformio cerddorol ar gyfer llais a phiano/allweddellau a oedd yn dathlu ac yn rhoi llais cerddorol i gasgliad hanes LHDTC+ yr Amgueddfa.

Rhaglen gyhoeddus ddwyieithog

Rydym yn annog ac yn cefnogi defnyddio a dathlu'r Gymraeg drwy ein rhaglen gyhoeddus. Parhaodd hyn o fewn ein rhaglenni digidol yn ystod y pandemig ac mae'n rhan annatod o'n trefniadau wrth i ni symud at raglen hybrid.

- Parhaodd ein rhaglen hybrid ar gyfer ysgolion gyda chyfuniad o gyrsiau wyneb yn wyneb a digidol dwyieithog ar gael i holl ysgolion Cymru. Yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, mabwysiadwyd y dull

lluosieithog wrth ddatblygu cynnwys ein sesiynau addysg, gan gynnwys y Gymraeg mewn gweithdai cyfrwng Saesneg fel ffordd o normaleiddio'r iaith. Yn ogystal â'n darpariaeth graidd cefnogwyd nifer o raglenni allanol gan weithgareddau i blant a phobl ifanc ar hyd a lled y wlad i ddefnyddio'u Cymraeg yn rhan o Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, mewn partneriaeth â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.

- Cynhyrchwyd adnoddau addysg gan gynnwys adnoddau ar gyfer oedran cyn ysgol, ysgolion ac oedolion. Parhawyd i gyhoeddi ein holl adnoddau addysg digidol, gan gynnwys e-lyfrau, ar Hwb, platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Hefyd, dosbarthwyd 7,500 o becynnau gweithgareddau dwyieithog trwy bartneriaid cymunedol ledled Cymru. Lansiwyd llyfr diweddaraf cyfres Seren a Sbarc mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, sy'n adrodd hanes Cymru trwy ymweld â'r amgueddfeydd cenedlaethol.

- Mae pob arddangosfa a gynhyrchir yn fewnol gennym yn ddwyieithog. Wrth wneud hyn, rydym yn arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog ac mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ac arferion ym maes dehongli a dylunio dwyieithog.

- Ymhlith uchafbwyntiau'r rhaglen ddigwyddiadau ddwyieithog lwyddiannus mae ein cyfres o ddigwyddiadau Amgueddfa Dros Nos: Gartref sydd wedi ennill gwobr Plant mewn Amgueddfeydd a hefyd clod uchel yng nghategori'r Gymraeg yng ngwobrau Cardiff Life. Cafwyd tystiolaeth fod teuluoedd yng Nghymru a thu hwnt wedi cymryd rhan yn Gymraeg a manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg trwy'r digwyddiadau digidol.

<u>Amcan 6</u>

Sicrhau trefniadau arwain a llywodraethu strategol, gan sicrhau fod y safon yn uchel ac yn gyson ar draws pob maes o'n cyfrifoldeb.

- Bob chwarter yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gynhyrchu a rhannu demograffeg a oedd yn cynnwys staff a staff a gaiff eu recriwtio yn y dyfodol i ddangos effeithiolrwydd gweithgareddau cynhwysiant.

- Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rydym yn darparu data o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys data ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig.

- Hefyd, rydym wedi cymryd camau i gefnogi Age Cymru er mwyn monitro sut mae'r boblogaeth hŷn yn cael cymorth yn y gweithle – gan gynnwys, hyfforddiant cynllunio ariannol, cefnogaeth menopos a mentrau iechyd meddwl a lles cyffredinol.

- Mae'r canlynol ar gael ar ein gwefan:

    - Ein hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
    - Ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'n Cynllun Gweithredu.
    - Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.
    - Ein mentrau camau cadarnhaol.
    - Gwybodaeth am sefydliadau partner sy'n cefnogi ein mentrau cydraddoldeb.
    - Mesurau gweithredu cadarnhaol wrth gomisiynu gwaith.